Ofcom

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

Trefniadau Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol BT yn deillio o'r adolygiadau o'r farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 24 Tachwedd 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 15 Ionawr 2018

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn ymghori am ein cynigion drafft ar gyfer newid prosesau adrodd ariannol rheoleiddiol BT . Mae'r rhain yn gweithredu ac yn cefnogi'r cynigion wnaethon ni yn ein hadolygiadau cyfredol o'r farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol (WBA) a'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLA), yn cynnwys y rhai hynny yn ein:

- Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017[1]
- Atebion ar gyfer Mynediad i Bolion a Phibellau ("Ymgynghoriad DPA Ebrill 2017" [2]);
- Ymgynghoriad ar ehangu'r rhwydwaith i ddarparu band eang cyffredinol ("Ymgynghoriad ar Ehangu'r Rhwydwaith WLA"[3]);
- Cosatau Ategol WLA (yn "Ymgynghoriad WLA Medi 2017" [4]) ac
- Ymgynghoriad WBA 2017[5].

Mae'r ddogfen hon hefyd yn esbonio ein cynnig i ddiwygio'r cyfarwyddyd cyfredol wnaethon ni orfodi yn yr Adolygiad Mynediad Sefydlog 2014 at ddibenion paratoi'r RFS 2017/18 o ran priodoli cyfraddau cumulo (cyfraddau busnes sy'n cael eu codi gan awdurdodau cyfraddio'r DU ar asedau rhwydwaith BT). Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith y bydd prisiad cyfraddio newydd mewn lle yn 2017/18, felly ni fyddai BT yn gallu cydymffurfio gyda'r cyfarwyddyd cyfredol os fyddai'n ei ffurf bresennol.

Rydym yn gofyn am ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 15 Ionawr 2018.

Byddwn yn ystyried yr holl ymgynghoriadau i'r ymgynghoriad hwn cyn gwneud ein penderfyniadau terfynol a fydd yn cael eu cyhoeddi mewn datganiad yn gynnar blwyddyn nesaf.

---

[1] Rydym yn cyfeirio at Ymgynghoriad y Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol – Ymgynghoriad ar y farchnad arfaethedig, penderfyniadau pwer y farchnad ac atebion -Rhan 1 ac Ofcom, 2017. Ymgynghoriad y Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthoil -Ymgynghoriad ar ddyluniadau rheoli costau a'u gweithrediad -Rhan 2 https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review.

[2] Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol:* Ymgynghoriad ar atebion ar gyfer Mynediad i Bolion a Phibellau, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/105428/ymgynghori-prisiau-mynediad-bolion-phibellau.pdf

[3] Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol:* Ymgynghoriad ar *Adennill costau buddsoddi mewn ehangu rhwydwaith*, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0025/105676/Adennill-costau-buddsoddi-mewn-ehangu-rhwydwaith.pdf

[4] Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol:* Ymgynghoriad pellach ar y rheolaeth ffioedd arfaethedig ar gyfer band eang cyflym iawn a safonol cyfanwerthol https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0015/106431/Adolygiad-or-Farchnad-Mynediad-Lleol-Cyfanwerthol.pdf

[5] Ofcom, 2017. Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0015/103263/adolygur-farchnad-mynediad-band-eang-cyfanwerthol.pdf

Cynnwys

Adran

Crynodeb Gweithredol 1-6

Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad 7

Crynodeb Gweithredol

Rôl Adroddiadau Rheoleiddiol

1.1 Yn y Datganiad ar Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol yn 2014[6] esbonion ni y dylai adroddiadau ariannol rheoleiddiol BT roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud y canlynol: dod i benderfyniadau rheoleiddio gwybodus; monitro cydymffurfiad BT â rhwymedigaethau rheoleiddio; sicrhau bod y rhwymedigaethau'n mynd i'r afael â materion cystadleuaeth sylfaenol; ac ymchwilio i achosion posibl o dorri rhwymedigaethau. Dylai hefyd roi hyder rhesymol i randdeiliaid fod BT wedi cydymffurfio â'i amodau o ran pŵer sylweddol yn y farchnad, ac ychwanegu hygrededd at y drefn ar gyfer darparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

1.2 Rydym yn cynnal adolygiadau cyfredol o'r marchnadoedd Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a Mynediad Lleol Cyfanwerthol. Yn yr adolygiadau'r farchnad hyn (gweler Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017[7], Ymgynghoriad DPA Ebrill 2017[8], Ymgynghoriad WBA 2017[9], Ymgynghoriad ar ehangu'r rhwydwaith WLA i ddarparu band eang cyffredinol[10] Ymgynghoriad WLA Medi 2017[11]), rydym yn cynnig amrywiaeth o ddatrysiadau SMP i fynd i'r afael â phwer BT yn y marchnadoedd cyfatebol, yn cynnwys anghenion adroddiadau ariannol rheoleiddiol.

1.3 O ran y farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol, fe wnaethon ni gyflwyno cynigion adroddiadau rheoleiddiol yn Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017 ac yn Ymgynghoriad Prisiau'r DPA yn Awst 2017. Fe wnaethon ni gyhoeddi ymgynghoriad pellach yn cynnwys mwy o gynigion yn Ymgynghoriad WLA Medi 2017, yn nodi y byddem yn cyhoeddi ymgynghoriad pellach am agweddau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol. O ran y farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol, fe wnaethon ni gynigion prisio ariannol yn Ymgynghoriad WBA 2017. Fe wnaethonni hefyd nodi y byddem yn ymgynghori ar wahân ar fanylion rhai o'r agweddau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol.

---

[6] Ofcom, 2014. *Datganiad ar Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol*, https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/bt-transparency

[7] Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol: Ymgynghoriad* https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review

[8] Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol:* Ymgynghoriad ar atebion ar gyfer Mynediad i Bolion a Phibellau, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0008/101051/duct-pole-access-remedies-consultation.pdf

[9] Ofcom, 2017. Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-broadband-access-market-review

[10] Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol:* Ymgynghoriad ar *Adennill costau buddsoddi mewn ehangu rhwydwaith*, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/105682/Recovering-the-costs-of-investment-in-network-expansion.pdf

[11] Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol:* Ymgynghoriad pellach ar y rheolaeth ffioedd arfaethedig ar gyfer band eang cyflym iawn a safonol cyfanwerthol https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/wla-market-review-further-consultation-on-charge-control

1.4 Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion ein cynigion (yn cynnwys diwygiadau i'r cyfarwyddiadau drafft) sy'n angenrheidiol i weithredu ein cynigion diweddaraf ar gyfer adroddiadau rheoleiddiol y marchnadoedd WLA a WBA.

1.5 Rydym hefyd yn ymgynghori ar newid penodol i gyfarwyddyd wnaethon ni orfodi yn 2015 yn dilyn Adolgyiadau'r Farchnad Mynediad Sefydlog ("FAMR") i sicrhau bod anghenion adroddiadau BT o ran costau Cumulo yn dal i fod yn addas.

Cynigion

1.6 Ceir crynondeb o'n cynigion adroddiadau ariannol isod gan gyfeirio at yr ymgynghoriad gwreiddiol oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer y datrysiad SMP sylfaenol. Yn dilyn dadansoddiad oedd yn rhan o Adolygiad y Farchnad y WLA, rydym hefyd yn cynnig newid i'r cyfarwyddyd adroddiadau ariannol rheoleiddiol a osodwyd yn dilyn Adolygiad y Farchnad Mynediad Sefydlog 2014.

Ymgynghoriadau'r DPA

1.7 Fel sy'n cael ei esbonio yn adran 3, fe wnaethon ni gynnig datrysiadau ar gyfer mynediad seilwaith ffisegol yn cynnwys gofyniad yn erbyn gwahaniaethu yn Ymgynghoriad DPA Ebrill 2017. Yn yr Ymgynghoriad Prisiau'r DPA yn Awst 2017, fe wnaethon ni gynnig datrysiad prisio drwy gyfrwng rheoli costau ar fynediad seilwaith ffisegol, yn cynnwys rhai cynigion am adroddiadau ariannol.

1.8 Nid ydym yn credu bod adroddiadau presennol BT ynghylch costau polion a phibellau yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i asesu effeithlonrwydd ein cynnig i newid costau ac i fonitro cydymffurfiaeth gyda'r rheol yn erbyn gwahaniaethu a'r EOI na'r rhwymedigaeth i archwilio pryderon cystadleuaeth.

1.9 Rydym yn cynnig bod BT:

- yn creu deg cydran cost rhwydwaith newydd sy'n caniatáu cofnodi perthnasol a dibynadwy o ran costau mewnbwn DPA ar sail gyfwerth ar gyfer gwasanaethau DPA a'r gwasanaethau mynediad rhwydwaith eraill sy'n eu defnyddio.
- yn cysoni ei restr o asedau ffisegol â'i gofnodion ariannol o bolion a phibellau yn y Datganiad Ariannol Rheoleiddiol (RFS) ar sail sy'n gyson â'r cydrannau cost rhwydwaith arfaethedig.

1.10 Rydym ni'n cynnig bod yn rhaid i BT ddechrau defnyddio'r elfennau rhwydwaith newydd o 1 Ebrill 2020 er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn RFS 2020/21. Bydd hyn yn rhoi amser i BT weithredu'r holl newidiadau angenrheidiol.

Ymgynghoriad ar Ehangu'r Rhwydwaith WLA

1.11 Yn yr Ymgynghoriad ar Ehangu'r Rhwydwaith, roeddem yn ymgynghori i addasu rheoliadau costau'r WLA i gynnwys costau ehangu'r rhwydwaith perthnasol y byddai BT yn eu

hwynebu os fyddai'n ymrwymo i gytundeb clir a chyhoeddus gyda'r Llywodraeth Brydeinig i fuddsoddi mewn band eang cyffredinol.

1.12 Yn Adran 4, rydym yn esbonio nad oes yn rhaid i BT adrodd ar y costau sy'n gysylltiedig ag Ehangu'r Rhwydwaith ar hyn o bryd.

1.13 Fel sy'n cael ei esbonio yn Adran 4, rydym yn cynnig bod BT:

- yn creu cydran cost rhwydwaith newydd sy'n caniatáu recordio cywir ac adroddiadau tryloyw o ran ehangu'r rhwydwaith.
- yn darparu adroddiadau manwl ar gostau ehangu'r rhwydwaith i ni ar sail gyfrinachol.

Ymgynghoriad WLA Medi 2017

1.14 Yn Ymgynghoriad WLA Medi 2017, roeddem yn ymgynghori ar gynigion yn ymwneud â band eang cyflym iawn a safonol a oedd yn golygu newid yr ystodau rheolaeth ffioedd yr oeddem wedi ymgynghori arnynt yn Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017[12]. O fewn y rhain roedd nifer o wasanaethau ategol lle amlygodd ein gwaith dadansoddi broblemau gyda'r ffordd roedd BT yn adrodd eu costau.

1.15 Rydym yn esbonio yn adran 5 nad yw adroddiadau presennol BT ynghylch rhai gwasanaethau ategol WLA yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio. Yn benodol, nid ydym yn credu ei fod, ar hyn o bryd, yn darparu gwybodaeth i ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill am y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio y byddant yn eu prynu yn y dyfodol.

1.16 Fel sy'n cael ei esbonio yn Adran 5, rydym yn cynnig bod BT:

- yn newid y ffordd mae'n adrodd ar gostau rhai gwasanaethau ategol fel eu bod yn gyson â sut roeddem yn eu hystyried yn Ymgynghoriad WLA Medi 2017 wrth ddiwygio ein cynigion ar gyfer rheoli ffioedd.
- yn cyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau ategol ychwanegol ar y lefel maent yn cael eu rheoleiddio.

Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017

1.17 Mae Adran 6 yn rhoi manylion pedair agwedd sydd angen eu gwella yn dilyn ymgynghoriad y farchnad WLA sy'n ymwneud â:

- Chysondeb penderfyniadau rheoleiddiol a chyfeiriad RAV (yn cynnwys costau cumulo);
- Adroddiadau'r EOI;
- Adroddiad cysoni BT a;
- Chostau cydrannau'r rhwydwaith

[12] Ofcom, 2017. *Ymgynghoriad ar Adolygu'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol* - Cyfrol 1, adran 3.

Cyfraddau Cumulo

1.18 Yn Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017, fe gynigon ni bod BT yn gwneud newid bychan i'r fethodoleg i briodoli cumulo mewn perthynas â'r costau cumulo'r GEA a bod gweddill y darpariaethau sy'n ymdrin â phriodoliadau cumulo yn y cyfarwyddyd cysondeb presennol yn aros yr un peth. Er ein bod wedi ystyried agwedd cyntaf ein cynigion yn offerynnau cyfreithiol drafft Atodiad 23 o'r Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017 (newidiadau i briodoliadau costau cumulo'r GEA), ni wnaethon ni ystyried yr ail agwedd, sef nad oedd newid o ran priodoliadau costau cumulo nad ydynt yn perthyn i'r GEA.

1.19 Mae hyn bellach wedi ei nodi'n glir drwy gyfrwng newidiadau i'r cyfarwyddyd cysondeb arfaethedig, ynghyd â mân newidiadau i'r geiriad sy'n ymwneud â chostau cumulo'r NGA i sicrhau bod yr anghenion arfaethedig yn glir.

Adroddiadau'r EOI

1.20 Yn Adran 6 rydym yn esbonio, er mwyn monitro cydymffurfiad BT â'r rhwymedigaeth EOI WLA arfaethedig, bydd angen gwybodaeth mewnbwn yr EOI sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym marchnad y WBA sy'n dibynnu ar fewnbynnau'r WLA EOI.

1.21 Yn Adran 6, rydym yn cynnig bod y wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi sy'n gysylltiedig gyda'r datrysiad EOI yn debyg i'r hyn sy'n cael ei gyhoeddi o ran y farchnad WBA.

1.22 Rydym yn ystyried y dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu i randdeiliaid i roi hyder iddynt bod BT yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth EOI.

Adroddiad Cysoni BT

1.23 Yn Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017, roeddem yn cynnig datrysiad ar gyfer yr adroddiadau ariannol rheoleiddiol; sef bod rhaid i BT gynhyrchu gwybodaeth sy'n dangos effaith yr holl newidiadau i'r fethodoleg a wnaed i'r RFS gyda'i gilydd, yn ogystal â gwybodaeth yn dangos effaith cywiro'r holl gamgymeriadau a ddarganfuwyd ar yr RFS.

1.24 Yn Adran 6, rydym yn trafod y cynnig yn Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017, bod BT yn cyhoeddi atodiadau, fyddai'n golygu bod BT yn gorfod cynhyrchu dau fersiwn arall o'r RFS. Yn Adran 6 hefyd rydym yn esbonio bod cynhyrchu'r atodiadau hyn yn rhy feichus i BT o ran darparu adnoddau.

1.25 Yn Adran 6, rydym yn cynnig adolygu ein cynnig o Fawrth 2017 ac nid oes angen cynhyrchu atodiadau mwyach. Rydym hefyd yn cynnig bod gweddill adroddiad cysoni BT yn rhan o'r RFS heb golli unrhyw fanylion, er mwyn lleihau'r wybodaeth sy'n cael ei dyblygu.

1.26 Yn dilyn hyn, gan y byddai prisiant ardrethu newydd y Llywodraeth yn ei le ar gyfer 2017/18, ni fyddai BT yn gallu cydymffurfio â'r cyfeiriad Cumulo presennol a osodwyd gennym yn yr Adolygiad o Fynediad Sefydlog yn 2014, at ddibenion paratoi RFS 2017/18.

Cydrannau rhwydwaith

1.27 Yn Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017 fe wnaethon ni gynnig datrysiad ar gyfer yr adroddiadau ariannol rheoleiddiol; gan nodi rhestr o gydrannau rhwydwaith i'w defnyddio gan BT wrth baratoi'r RFS.

1.28 Yn Adran 6 rydym yn esbonio yn dilyn trafodaethau gyda BT, rydym yn deall bod gan un o'r cydrannau a gynigir enw sy'n gamarweinol, mae 11 o gydrannau sydd ar y rhestr arfaethedig yn amherthnasol erbyn hyn ac mae ein rhestr wedi hepgor dau ohonynt.

1.29 Yn Adran 6 rydym yn esbonio sut fyddwn yn mynd ati i ddiweddaru'r rhestr o gydrannau rhwydwaith yng nghyfarwyddyd drafft Ymgynghoriad Mawrth 2017 y WLA i sicrhau bod y rhestr yn gyfredol.

Adoygiad y Farchnad Mynediad Sefydlog 2014

1.30 Yn Ymgynghoriad WLA Mawrth 2017, fe gynigon ni newid y ffordd mae BT yn priodoli ei gyfraddau Cumulo (cyfraddau busnes sy'n cael eu gosod gan awdurdodau graddio'r DU ar asedau rhwydwaith BT), i adlewyrchu eu gwerth cyfraddio yn y rheolaeth costau arfaethedig. Fe wnaethon ni hefyd gynnig cyfarwyddyd ar gyfer rheoliadau adroddiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r cyfraddau Cumulo.

1.31 Yn Adran 7 rydym yn esbonio gan fydd y dull prisio cyfraddau mewn lle ar gyfer 2017/18, ni fyddai modd i BT i gydymffurfio gyda'r cyfarwyddyd Cumulo presennol wnaethon ni orfodi yng nghyfarwyddyd Adolygu Mynediad Sefydlog 2014 at ddibenion paratoi'r RFS 2017/18.

1.32 Rydym yn cynnig ein bod yn diwygio'r cyfarwyddyd rheoleiddio adroddiadau ariannol wenaethon ni orfodi yn 2014 er mwyn iddo ddilyn yr un strwythur yr ydym yn ei gynnig yn nawr ar gyfer marchnad y WLA.

Ymgynghoriad WBA 2017

1.33 Yn Ymgynghoriad WBA 2017, ni wnaethom nodi cynigion ar gyfer adroddiadau ariannol rheoleiddiol o ran y gofynion ar gyfer nodi'r rhestr o gydrannau rhwydwaith neu adroddiad cysoni BT. Fe wnaethon ni esbonio yn Ymgynghoriad WBA 2017 y byddem yn llunio cynigion ar gyfer y ddau faes hwn, ac yn ymgynghori arnynt yn nes ymlaen.

1.34 Fel yr ydym yn esbonio yn Adran 8, at ddibenion adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y Farchnad WBA, mae angen i ni bennu un rhestr o gydrannau rhwydaith sy'n gyson ar draws yr holl farchnadoedd sy'n cael eu rheoleiddio. Yn Adran 8 rydym hefyd yn esbonio bod angen i holl anghenion yr adroddiad cysoni gael eu gweithredu'n gyson ar draws yr holl farchnadoedd.

1.35 O ran y cydrannau rhwydwaith, rydym yn cynnig pennu cyfeiriad sy’n nodi’r rhestr o gydrannau rhwydwaith sy’n adlewyrchu cynigion yn adrannau 3 i 6 yn yr Ymgynghoriad ac sy’n dilyn yr un strwythur â’r hyn rydym yn ei gynnig ar gyfer y farchnadoedd WLA.

1.36 O ran yr Adroddiad Cysoni, rydym yn cynnig bod BT yn cyhoeddi’r Adroddiad Cysoni sy’n adlewyrchu ein cynigion yn Adran 6 o’r ymgynghoriad hwn ac sy’n dilyn yr un strwythur â’r hyn rydym yn ei gynnig ar gyfer y farchnadoedd WLA.

Ymgynghori a’r camau nesaf

1.37 Rydym yn gofyn am sylwadau ar y cynigion yn y ddogfen hon. Mae’r ymgynghoriad yn para am chwe wythnos, a’r dyddiad cau ar gyfer ymateb yw’r 15 Ionawr 2018. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am sut i ymateb. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein casgliadau cyffredinol ynghylch y marchnadoedd WLA a WBA yng ngwanwyn 2018.

1.38 Mae’r cynigion sydd wedi’u nodi yn yr ymgynghoriad hwn yn rhan o’n cynigion cyffredinol ar gyfer y farchnad WLA a’r farchnad WBA. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau o ran yr elfennau eraill o’r cynigion a nodwyd yn ein Hymgynghoriad WLA Mawrth 2017, Ymgynghoriad DPA Ebrill 2017, Ymgynghoriad WBA 2017, yr Ymgynghoriad ar Ehangu’r Rhwydwaith WLA, ac Ymgynghoriad WLA Medi 2017. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud mwy o waith dadansoddi a chasglu gwybodaeth cyn penderfynu ar y camau nesaf sy’n briodol i'w cymryd. Felly rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori hon a’u heffaith ar ein cynigion a nodwyd yn yr ymgyngoriadau blaenorol a restrwyd uchod. Fodd bynnag, nid ydym, yn y ddogfen hon, yn gofyn am ragor o sylwadau mewn perthynas â'r cynigion ehangach a nodwyd yn yr ymgynghoriadau blaenorol a restrwyd uchod.

A1. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 4.1. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer adroddiadau ariannol rheoleiddiol o ran adrodd ar gostau ehangu'r rhwydwaith i gefnogi band eang cyffredinol? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 5.1. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer adroddiadau ariannol rheoleiddiol o ran adrodd ar gostau ategol WLA? Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 6.1: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol BT, sef diwygio'r gofynion o ran ffurf a chynnwys yr RFS yng nghyswllt adrodd ar EOI?

Os nad ydych chi, beth fyddech chi'n ei gynnig, a pham?

Cwestiwn 6.2: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol BT, gan gynnwys y gofynion arfaethedig ar gyfer diwygio'r cyfeiriad o ran darparu'r wybodaeth sydd yn Atodiadau'r Adroddiad Cysoni, a chyfuno'r wybodaeth yn yr RFS a gyhoeddir?

O ran y wybodaeth sydd yn atodiadau'r adroddiad cysoni ar hyn o bryd, os ydych chi'n credu bod gwybodaeth bwysig yn cael ei cholli, allech chi esbonio pam ei bod yn bwysig, a beth rydych chi'n credu y byddwch yn ei golli yn sgil ei thynnu?

Cwestiwn 6.3: Ydych chi'n cytuno gyda'n ceisiadau ar gyfer Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol BT, yn cynnwys addasu un o'r anghenion sy'n nodi'r rhestr o elfennau costau rhwydwaith? Os nad ydych chi, beth fyddech chi'n ei gynnig a pham?

Cwestiwn 7.1: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol BT, sef diwygio'r gofynion o ran priodoli costau cyfraddau Cumulo BT ar gyfer 2017/18?

Os nad ydych chi, beth fyddech chi'n ei gynnig, a pham?

Cwestiwn 8.1: Ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion ar gyfer adroddiadau ariannol rheoleiddiol, gan addasu'r anghenion sy'n gysylltiedig â'r farchnad WBA? Os nad ydych chi, beth fyddech chi'n ei gynnig, a pham?